



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Strategaeth unigrwydd ac ynysigrwydd

Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig



Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu ei strategaeth gyntaf i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol a chreu cysylltiadau cymdeithasol cryfach.

Mae mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol yn her hirdymor. Y strategaeth hon yw cam cyntaf Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r problemau hyn, y gwyddom sy'n gymhleth ac sy'n effeithio ar lawer o wahanol grwpiau o bobl.

Mae gennym ddealltwriaeth gynyddol o'r effaith y gall bod yn unig a/neu'n ynysig yn gymdeithasol ei chael ar ein hiechyd corfforol a'n hiechyd meddwl, ac felly pwysigrwydd y berthynas sydd gennym gyda ffrindiau, teulu, cydweithwyr a chymdogion o ran rhoi ein hymdeimlad o berthyn a llesiant i ni.

Ein huchelgais yw i Gymru fod yn wlad sy'n cefnogi'r cysylltiadau hyn rhwng pobl a lle'r ydym yn ategu cryfderau pobl i sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol ac ystyrlon beth bynnag fo'u hoed, statws, amgylchiadau neu hunaniaeth.

Rydym i gyd yn debygol o gael cyfnodau pan fyddwn yn teimlo'n unig neu'n ynysig yn gymdeithasol: cael ein bwlio yn yr ysgol; symud o'r ysgol i'r brifysgol; dechrau swydd newydd neu ddiwedd perthynas gariadus. Mae'r Gymru a garem yn un lle mae pobl yn ymwybodol o'r sbardunau hyn mewn bywyd, yn gwybod sut i atal y teimladau hyn rhag cael effaith ar eu llesiant, neu'n cael eu cynorthwyo pan fyddant, ac nad ydynt yn teimlo wedi eu stigmatiddio am ofyn am gymorth neu ddweud "rwy'n unig".

Yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar ddulliau sy'n lleihau'r perygl o unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol, neu'n ei atal, neu sy'n ymyrryd yn gynnar, cyn i'r rhain ymwreiddio ymhellach. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys annog pobl i ddeall sbardunau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol ac i ddatblygu cadernid emosiynol a seicolegol i'w paratoi i ymdopi ac ymateb. Fodd bynnag, mae angen i ni sicrhau hefyd bod gymorth ar gael i'r rhai sydd eisoes yn unig ac yn ynysig yn gymdeithasol, neu y bydd hyn yn digwydd iddynt, er gwaethaf ein hymdrechion gorau, ac mae hon yn nodwedd o'r strategaeth hefyd.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar y ffordd orau o fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol yng Nghymru o fis Hydref 2018 tan fis Ionawr 2019. Cyflwynodd hwn ein 'cynnig presennol' o ran gwaith sy'n cael ei wneud ar draws amrywiaeth o feysydd polisi allweddol o fewn Llywodraeth Cymru, gan ddefnyddio fframweithiau deddfwriaethol a strategol presennol. Ni ddywedodd yr un o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad eu bod eisiau cynnig sylfaenol wahanol gan Lywodraeth Cymru. Y neges gyffredinol oedd bod angen iddi wneud mwy yn y meysydd y mae'n gweithredu ynddynt eisoes, neu fod angen iddi wneud pethau'n wahanol yn y meysydd hyn er mwyn cael mwy o effaith, gan gynnwys sut mae'n annog ac yn dylanwadu ar bartneriaid eraill i weithredu.

Wrth ddatblygu'r strategaeth hon felly, rydym wedi ceisio sicrhau'r manteision mwyaf posibl o gamau gweithredu'r llywodraeth ar draws amrywiaeth o feysydd polisi gan ddefnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael i annog a hybu camau i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol. Rydym hefyd wedi ceisio sicrhau'r effaith fwyaf posibl o ffrydiau ariannu presennol ar draws Llywodraeth Cymru trwy ystyried sut y gall eu hamcanion a'u canlyniadau gyd-fynd yn well â'n huchelgais o leihau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol. Mae'r strategaeth yn cynnwys nifer o bolisiau ac ymrwymadau trawsbynciol a fydd o fudd i'r holl gymdeithas, ochr yn ochr â chydabod bod grwpiau penodol mewn cymdeithas sydd mewn mwy o berygl o ddioddef unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol ac y mae angen mwy o gymorth wedi'i deilwra arnynt.

Roedd yn eglur o'r ymatebion ymgynghori na all y Llywodraeth ddatrys y problemau hyn ei hun ac mae'r strategaeth yn ceisio galluogi pob rhan o gymdeithas i chwarae rhan. Er na all y llywodraeth greu cymunedau, gall greu amgylchedd a fydd yn ehangu ac yn dyfnhau'r cysylltiadau hyn. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio felly ar y rhan y gall Llywodraeth ei chwarae ond hefyd sut y gall gynorthwyo awdurdodau lleol, gwasanaethau cymdeithasol ehangach, y trydydd sector a hefyd y sector preifat. Hefyd, mae'n disgrifio'r rhan bwysig y gallwn ni i gyd fel unigolion ei chwarae i gefnogi a gofalu am ein gilydd a'n cymunedau.

Sut mae'r bobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi cael eu cynnwys yn y broses o'i ddatblygu?

Er mwyn helpu i lywio'r strategaeth, rydym wedi ymgysylltu â nifer o randdeiliaid ynghylch yr hyn sy'n bwysig yn eu barn nhw, ac wedi sefydlu bwrdd datblygu strategaeth o randdeiliaid mewnol ac allanol. Rydym wedi gwneud gwaith ymchwil helaeth ac wedi gweithio gyda Llywodraethau'r DU a'r Alban, y mae'r ddwy ohonynt wedi cyhoeddi strategaethau, i rannu gwybodaeth a dysgu gan ein gilydd.

Yn seiliedig ar hyn, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus gennym rhwng Hydref 2018 ac Ionawr 2019 ar y ffordd orau o fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd yng Nghymru.

Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu gennym mewn gwahanol rannau o Gymru hefyd, i alluogi pobl i ddod a dweud wrthym am yr hyn sy'n bwysig iddynt.

Gwahoddwyd grwpiau cynrychioli plant i gyfrannu at yr ymgynghoriad i ddatblygu'r strategaeth derfynol a chyhoeddwyd fersiwn plant a phobl ifanc o'r ddogfen ymgynghori hefyd er mwyn helpu i geisio barn y grŵp hwn.

Derbyniwyd dros 230 o ymatebion gennym gan unigolion a sefydliadau a pharatowyd crynodebau ysgrifenedig o'r pedwar digwyddiad ymgysylltu hefyd. Dadansoddwyd yr ymatebion hyn gennym gan nodi'r themâu allweddol er mwyn deall yr hyn yr oedd pobl a sefydliadau wedi ei ddweud wrthym, a defnyddiwyd hyn i'n helpu i ddatblygu fersiwn derfynol y strategaeth.

Beth yw'r effeithiau mwyaf sylweddol, yn gadarnhaol ac yn negyddol?

Mae'r strategaeth ei hun yn ceisio mynd i'r afael ag effeithiau negyddol presennol sy'n atal rhai pobl neu grwpiau rhag gallu cysylltu ag eraill. O ganlyniad, disgwylir i'r strategaeth gael effaith gadarnhaol mewn nifer o feysydd. Er bod y strategaeth yn cyflwyno dull cyffredinol o fynd i'r afael â'r problemau, mae hefyd yn cydnabod bod rhai grwpiau yn dioddef unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol yn fwy cyffredin nag eraill. Mae'r strategaeth yn nodi rhai camau a mentrau penodol i gynnig mwy o bwyslais uniongyrchol ar y meysydd hyn:

- rhai grwpiau â nodweddion gwarchoddedig (pobl hŷn ac iau, pobl anabl, ac ati)
- y rhai sy'n byw mewn cymunedau gwledig.

Bydd y strategaeth yn hybu arfer da ym mhollisiau'r presennol a'r dyfodol trwy sicrhau bod unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol yn cael eu hystyried gyda mwy o bwyslais wrth i bolisiau gael eu datblygu (trwy fwy o fesur problemau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol mewn gwahanol ddulliau monitro ac yn fewnol trwy ddatblygiad polisi cydlynol).

O ystyried yr effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig: – yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf i'n hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu, – yn osgoi, yn lleihau neu'n lleddfu unrhyw effeithiau negyddol?

The strategy will aim to facilitate the sharing of knowledge Nod y strategaeth fydd hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth a dysgu ar draws Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol hefyd) trwy weithdai. Bydd y rhain yn archwilio i ba raddau yr ystyrir bod unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol yn flaenoriaeth ledled Cymru, yn rhannu enghreifftiau o arfer da o ran pa ffactorau sy'n gysylltiedig â rhaglenni/ prosiectau llwyddiannus ac yn ystyried rhwystrau i weithredu a sut y gellir eu goresgyn. Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardal trwy gydweithio i gyflawni'r amcanion llesiant a nodir yn y Ddeddf.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi dangosyddion cenedlaethol i fesur cyflawniad y saith nod llesiant i Gymru sydd wedi eu cynnwys yn y Ddeddf. Un o'r 46 o ddangosyddion cenedlaethol sydd yn cael eu defnyddio i fesur cynnydd Cymru yn erbyn y saith nod llesiant yw'r ganran o bobl sy'n unig.

Caiff hyn ei fonitro trwy gwestiynau yn Arolwg Cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys cwestiynau perthnasol eraill i alluogi dadansoddiad o agweddau eraill ar fywydau pobl sy'n berthnasol i unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol (e.e. oedran, math o aelwyd a ffactorau demograffig eraill). Mae unigrwydd cymdeithasol yn cyfeirio at ddifffyg rhwydwaith cymdeithasol derbyniol, hynny yw, cylch ehangach o ffrindiau a chydnabod sy'n gallu rhoi ymdeimlad o berthyn, o gwmniaeth ac o fod yn aelod o gymuned. Er nad yw hyn yn nodi ynysigrwydd cymdeithasol fel y'i diffiniwyd yn gynharach, mae'n bosibl cael syniad o gyfran ac amgylchiadau'r bobl hynny sy'n ymateb yn negyddol, a monitro hyn dros amser. Trwy weithredu'r strategaeth, byddwn yn ystyried ymarferoldeb mesur ynysigrwydd cymdeithasol, fel y'i diffinnir yn y strategaeth hon, drwy'r Arolwg Cenedlaethol (gan ddefnyddio graddfa gydnabyddedig).

Sut y bydd effaith y cynnig yn cael ei fonitro a'i werthuso wrth iddo fynd rhagddo a phan gaiff ei gwblhau?

Er mwyn asesu effeithiolrwydd y strategaeth hon wrth fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol mewn modd cynhwysfawr, cynhelir asesiad o werthusadwyedd. Mae defnyddio'r dull hwn i lywio'r broses o werthuso wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan ddarparu adroddiad systematig a thryloyw o sut y bydd y gwaith arfaethedig yn arwain at yr amcanion a ddymunir, y dulliau a ddefnyddir i asesu cynnydd tuag at yr amcanion hyn a'r ffynonellau data sy'n angenrheidiol i wneud hynny, gan gynnwys bylchau presennol. Caiff yr asesiad hwn ei gyhoeddi a bydd yn sail i werthusiadau yn y dyfodol.

Fel y nodwyd byddwn hefyd yn ystyried ymarferoldeb mesur ynysigrwydd cymdeithasol yn ffurfiol drwy'r Arolwg Cenedlaethol, gan ddefnyddio graddfa gydnabyddedig.

Mae'r strategaeth yn ymrwmo i sefydlu'r sail dystiolaeth er mwyn gwella dealltwriaeth o achosion ac effeithiau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol ar gyfer gwahanol oedrannau a gwahanol grwpiau a nodi ffyrdd effeithiol o fynd i'r afael â nhw a'u hatal. Mae'r strategaeth yn nodi £1.4 miliwn ychwanegol dros y tair blynedd nesaf ar gyfer Cronfa Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cymdeithasol i brofi dulliau arloesol o fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol a/neu i greu dulliau addawol o gyrraedd y rhai sydd eisoes yn unig a/neu wedi eu hynysu'n gymdeithasol.

Byddwn yn defnyddio'r prosiectau a gefnogir gan y Gronfa a data o'r Arolwg Cenedlaethol i helpu i ddatblygu ein gwybodaeth. Byddwn yn parhau i archwilio sut y gallwn gyfrannu at y broses o greu a rhannu tystiolaeth drwy ein Grŵp Cyngori ar Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cymdeithasol, gan gynnwys pa ymchwil penodol sydd ei angen.

Bydd llwyddiant tymor hwy dull gweithredu Llywodraeth Cymru a'r strategaeth hon yn cael eu hasesu o'u cymharu â'r dangosydd unigrwydd a'r dangosyddion cenedlaethol eraill hyn, a chyflawni gostyngiad yn nifer yr achosion o unigrwydd cymdeithasol ac emosiynol. Fodd bynnag, yn y tymor byr rydym yn disgwyl gweld cynnydd yn y rhai sy'n dweud eu bod yn unig wrth i ni godi ymwybyddiaeth ac wrth i bobl deimlo eu bod yn gallu ei adnabod a siarad amdano yn fwy.